



Cyngor Cymuned y Mwmbwls

Astudiaeth Achos

Diwrnodau Hwyl i'r Teulu

Un Llais Cymru



One Voice Wales

Cipolwg ar

Yn dilyn Covid, roedd Dinas a Sir Abertawe yn cynnig cyllid grant i helpu plant i fod yn gymdeithasol eto. Cafodd Cyngor Cymuned y Mwmbwls arian grant i allu cynnig diwrnodau hwyl cymunedol am ddim i deuluoedd yn ystod y gwyliau. Gyda chinio hefyd, roedd y digwyddiadau hyn yn cynnig llu o fuddion, yn creu amgylchedd mwy cynhwysfawr a chefnogol ac yn helpu teuluoedd i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mewn cyswllt wrth fynd i'r afael â rhai o'r heriau a ddaw gyda'r argyfwng costau byw.

Mae partneriaid yn cynnwys:

- Red Cafe Community Pantry & Co-op yn helpu drwy ddarparu bwyd a snacs am ddim
- Ysgolion lleol a grwpiau cymunedol yn agor eu hadeiladau i'r diwrnodau hwyl gael eu cynnal ar eu safleoedd
- Partneru gyda chlybiau a mudiadau lleol i gyflwyno chwaraeon a gweithgareddau
- Dinas a Sir Abertawe i gyrchu cyllid er mwyn cyflwyno cynlluniau taclo tldi

“Mae'r diwrnodau hwyl hyn yn wych, mae'r plant yn dwlu arny'n nhw. Maen nhw'n meddwl am bopeth - yn enwedig y snacs iach”

Heriau

Ar ôl Covid, sylweddolwyd fod prinder cyfleoedd i gymunedau gwrdd yn gymdeithasol, oedd yn ei gwneud yn fwy anodd i deuluoedd ail-gynnau perthasoedd. Gyda'r argyfwng costau byw hefyd, gall fod yn anodd i deuluoedd ddod o hyd i weithgareddau sydd ar gael, yn addas i'r teulu ac yn fforddiadwy. I rai teuluoedd, gyda chostau teithio yn uwch hefyd, gallai fod anhawster teithio i ddigwyddiadau neu wasanaethau hyd yn oed os oeddent yn dymuno cymryd rhan.

Datrysiadau

Mae cynnig diwrnodau hwyl i'r teulu yn ystod gwyliau ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i deuluoedd adael y tŷ a chysylltu ag eraill yn eu cymuned. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle i dorri ar y drefn arferol, cwrdd â phobl newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol; gan helpu plant ac oedolion i wneud ffrindiau a chryfhau rhwydweithiau cymdeithasol. Drwy gynnig y rhain am ddim, waeth beth fo'u sefyllfa ariannol, gall pob teulu gymryd rhan a chael budd o'r profiadau cadarnhaol yma.

“Cyfle i blant adeiladu eu lles cymdeithasol y tu allan i amgylchedd yr ysgol, rhywle ychydig yn fwy anffurfiol – dod i adnabod eu cymdogion; dyma beth yw adeiladu cymuned ar ei orau a rhywbeth rydym yn hynod falch ohono.” Cyng Rebecca Fogarty

Beth sydd ar gael?



Cymorth i'r Teulu



Bwyd Iach



Gweithgareddau Lles



Mannau Cymunedol

1 Mae **Diwrnodau Hwyl i'r Teulu** yn cynnig cyfle i deuluoedd fynd allan yn eu cymunedau, cymdeithasu a chael amser da gyda'i gilydd drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau am ddim

Mae **ddarparu prydau am ddim** i blant yn ystod gweithgareddau gwyliau yn sicrhau fod pob plentyn, waeth beth fo'r sefyllfa ariannol yn cael prydau maethlon, ac mae hyn yn help i fynd i'r **afael â diffyg diogeledd bwyd**.

3 Drwy **ddarparu gweithgareddau lles** fel chwaraeon, coginio, crefft, chwarae, a thyfu bwyd, ceir dull holistig o wella iechyd y corff a'r meddwl. **Maent yn annog rhyngweithio cymdeithasol**, yn cynnig ffordd i deuluoedd ymgysylltu mewn profiadau ystyrlon a phleserus gyda'i gilydd.

4 Drwy gynnal dyddiau hwyl am ddim mewn parciau lleol, manau agored ac adeiladau, mae'r cyngor yn cynnig cyfleoedd i deuluoedd gwrdd â'u cymdogion ac adeiladu cysylltiadau â'u cymuned.



£16,200

Cost y Cynllun



12

Diwrnodau
Hwyl i'r Teulu



1661

Darparu Prydau
Bwyd



Gwyliau Hanner Tymor Chwefror

Cynhaliwyd tri digwyddiad hynod o lwyddiannus dros hanner tymor Chwefror (2025) gyda phrydau bwyd wedi'u darparu i **298 o bobl ifanc**.

Rhoi cefnogaeth i galon eu cymunedau drwy ddarparu gweithgareddau hwyliog a diddorol a lle croesawgar i deuluoedd



“wrth fy modd â'r digwyddiadau hyn – teimlo'n rhan o'r gymuned”

“roedd hwn yn ddigwyddiad hyfryd i fynychu a chwrdd â phobl newydd”



Cyllid & Grymoedd Cyfreithiol Penodol

Yn Chwefror 2024–Chwefror 2025 llwyddodd y Cyngor i sicrhau £9200 o gyllid gan Gyngor a Dinas Abertawe. Cyfrannodd Cyngor Cymuned y Mwmbwls £7000 tuag at y gwahanol ddiwrnodau hwyl dros y 12 mis.

Mae ar bob cyngor cymuned yng Nghymru angen pwerau cyfreithiol penodol sy'n eu galluogi i ddarparu gwahanol wasanaethau a chefnogaeth i'r cymunedau lleol. Mae'r pwerau hyn, a roddir trwy ddeddfwriaeth, yn galluogi cyngorau i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau a chynlluniau i wella lles ac ansawdd bywyd eu preswylwyr.

Gall pwerau a chyfiawnhad amrywio, a dylai cyngorau ystyried eu hamgylchiadau penodol.

I gael cyngor a chanllawiau, mae croeso i gyngorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru. admin@onevoicewales.wales

Y Dyfodol

Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid gan Ddinas a Sir Abertawe i sefydlu cynlluniau newydd:

- £2010 i'r caffi cymorth sydd newydd agor lle gall preswylwyr gael mynediad at gyngor a gwasanaethau dros baned a chacen.
- £3012 i ddechrau cydweithredu cnydau Mwmbwls.

Byddant yn parhau i drefnu eu Noson Gymdeithasol Hyb Cynnes ar nos Wener sy'n cynnwys darparu bwyd poeth a gweithgareddau (£3510 cyllid grant a £4000 o gronfeydd y cyngor) a'u paned a chacen wythnosol gyda ffrindiau (£1500 cyllid grant a £2000 o gronfeydd y cyngor).

Bwriedir cynnal mwy o Ddiwrnodau Hwyl i'r Teulu yn 2025

Eisiau Gwybod Mwy?

Am ragor o wybodaeth ar brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:



CoLC@onevoicewales.wales



<https://bit.ly/3KYHftK>